**Rhif:** WG42968

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau gwella ysgolion

## Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-512-6

# Canllawiau gwella ysgolion

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law yn sgil ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol drafft Llywodraeth Cymru ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a'i roi ar waith. |
| **Camau l'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>draeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: Gwellaysgolion@llyw.cymru<br><br> @LlC_Addysg<br><br> Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad y wefan llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen ymgynhori Llywodraeth Cymru - Canllawiau gwella ysgolion llyw.cymru/ymgynghoriadau |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir | 1 |
| 2. Ymgynghori | 2 |
| 3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 3 |
| 4. Yr ymatebwyr | 12 |
| 5.Ymateb LLywodraeth Cymru | 12 |
| 6. Y camau nesaf | 13 |


Mae'r holl ymatebion yn y ddogfen hon wedi'u dyfynnu yn yr iaith wreiddiol.
All responses included in this document are quoted in their original language.

## 1. Cefndir

1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau gwella ysgolion anstatudol sy'n nodi fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn, sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system hunanwella' yw un o bedwar amcan galluogi'r cwricwlwm newydd. Cynlluniwyd y fframwaith atebolrwydd i gyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd, gan gynnwys cyflawni'r pedwar diben, ac mae'r ddogfen yn rhoi canllaw i ysgolion a'r rhai sy'n eu cefnogi ar ymgorffori trefniadau gwerthuso a gwella effeithiol wrth roi'r cwricwlwm newydd a'i ddiwygiadau cysylltiedig ar waith.

1.2 Diben cyffredinol y canllawiau yw helpu ysgolion i wella er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiadau dysgu a'r canlyniadau gorau posibl a, thrwy wneud hynny, godi safonau a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion. Bwriedir i'r fframwaith newydd sicrhau y caiff perfformiad ysgolion ei werthuso gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth a gwybodaeth, sy'n cwmpasu holl weithgarwch yr ysgol – gan gynnwys cynnydd a llesiant dysgwyr – wrth bennu blaenoriaethau ysgol ar gyfer gwella. Mae'r fframwaith yn symud i ffwrdd oddi wrth bwyslais anghymesur ar nifer bach o fesurau perfformiad, sy'n seiliedig ar ganlyniadau arholiadau allanol, a all arwain at ymddygiadau a dewisiadau gan ysgolion nad ydynt, o reidrwydd, er budd pennaf dysgwyr.

1.3 Bydd y canllawiau gwella ysgolion yn helpu i wella gallu ysgolion i hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau'n fwy trylwyr ac effeithiol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth, a chyda chymorth y consortia rhanbarthol. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, Estyn ac ysgolion i ddatblygu'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol ('yr adnodd'). Bydd yr adnodd yn hyrwyddo prosesau gwella effeithiol a chydweithio rhwng ysgolion ac yn darparu canllawiau ac adnoddau ymarferol i gefnogi gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ystyrlon a chadarn. Bydd yn cynnwys cyfres o awgrymiadau, y bwriedir iddynt helpu ysgolion i gynnal hunanwerthusiadau ystyrlon a chadarn, wedi'u hategu gan astudiaethau achos go iawn o wahanol enghreifftiau o hunanwerthuso.

1.4 O fewn system ysgolion sy'n hunanwella, mae'n bwysig bod y cyrff gwahanol – yn bennaf ysgolion a chyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol – yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, rolau a chyfrifoldebau cyrff eraill, a'r gydberthynas rhyngddynt. Felly, mae'r canllawiau yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff, mewn perthynas â gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, er mwyn helpu'r system hunanwella i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n pwysleisio y dylid ystyried bod atebolrwydd ar wahân i weithgareddau gwerthuso a gwella, er ei fod yn gysylltiedig â nhw.

1.5 O dan y fframwaith, caiff y system gategoreiddio genedlaethol ei disodli gan broses gefnogi debyg na fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gategorïau ysgolion gael eu cyhoeddi ond a fydd yn galluogi consortia rhanbarthol i gytuno ag ysgolion ar y cymorth sydd ei angen arnynt i wella. Bydd y broses newydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddosbarthu a broceru cymorth i ysgolion mewn ffordd sy'n gymesur â'u hanghenion ac yn hyblyg.

## 2. Ymgynghori

2.1 Lansiwyd ymgynghoriad 6 wythnos ar y canllawiau gwella ysgolion newydd ar 27 Ionawr a daeth i ben ar 15 Mawrth. Ei ddiben oedd casglu barn ar eglurder a defnyddioldeb y canllawiau gwella ysgolion a'r fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Roedd y canllawiau gwella ysgolion a'r fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd wedi bod yn destun ymgynghoriad â ffocws an 6 wythnos gyda rhanddeiliaid allweddol yn 2020.

2.2 Cynhaliwyd y prif ymgynghoriad ar-lein ac roedd yn cynnwys pum cwestiwn penodol:

- *Ydych chi'n cytuno bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant cadarn gan ysgolion, sy'n manteisio ar ystod eang o dystiolaeth, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion, yn bwysig?*
- *Ydych chi'n cytuno y dylai'r system gategoreiddio genedlaethol ddod i ben, ond y dylid ei disodli gan broses debyg, dan arweiniad consortia rhanbarthol, a fyddai'n golygu bod consortia yn cytuno gydag ysgolion ar y cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn gwella, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion?*
- *Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau gwerthuso a gwella, a'r system atebolrwydd, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion? A yw'r gwahaniaeth hwn wedi'i wneud yn glir?*
- *Ydych chi'n cytuno y bydd y system atebolrwydd a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i egwyddorion?*
- *Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a bennir i'r gwahanol sefydliadau yn y system addysg fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion?*

2.3 Roedd cwestiynau pellach yn gwahodd barn yr ymatebwyr ar yr effaith y bydd canllawiau gwella ysgolion yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Gwahoddwyd ymatebwyr hefyd i ddweud a oeddent yn teimlo y gallai'r canllawiau gwella ysgolion gael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Gwahoddwyd ymatebwyr hefyd i gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau penodol eraill.

## 3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1. Cafwyd cyfanswm o 82 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, cyflwynwyd 55 drwy system ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru a 27 drwy e-bost. Roedd un ymateb yn wag ac ni wnaeth ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau. Cyflwynwyd dau ymateb yn Gymraeg. Ni wnaeth pob ymatebydd sylwadau ar bob cwestiwn a dewisodd rhai beidio ag ymateb i'r cwestiynau o gwbl – gan ddewis yn hytrach i roi sylwadau.

3.2 Cafwyd ymatebion gan sefydliadau addysg penodol (er enghraifft, consortia rhanbarthol ac unigolion sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol). Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys Estyn; Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; ysgolion cynradd ac uwchradd ac undebau athrawon; cyrff cenedlaethol eraill, a deuddeg ymatebydd a ddewisodd aros yn ddienw. Gofynnodd tri deg pump arall o ymatebwyr i'w hymateb aros yn ddienw.

3.2. Ceir rhagor o fanylion am gyfraddau ymatebion i'r cwestiynau unigol a ofynnwyd (yn ogystal ag enghreifftiau o'r ymatebion eu hunain) isod:

**Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant cadarn gan ysgolion, sy'n manteisio ar ystod eang o dystiolaeth, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion, yn bwysig?**

O'r saith deg pump o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd chwe deg chwech o ymatebwyr (88%) yn cytuno â'r cwestiwn, gyda phedwar ddim yn cytuno nac yn anghytuno a phump arall (6.5%) yn anghytuno.

Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel y nodir yn y canllawiau gwella ysgolion. Mae rhai ymatebwyr yn ceisio sicrwydd ynghylch effaith bosibl yr Adnodd Gwella Addysg Cenedlaethol ar lwyth gwaith ysgolion a'r angen am hyfforddiant i sicrhau bod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r cwestiwn yn codi'r risg y gellid defnyddio'r adnoddyn anghywir, gyda chynnydd canlyniadol yn y llwyth gwaith. Un pryder a godwyd yn gyffredin oedd y byddai ysgolion yn ceisio mynd i'r afael â'r holl awgrymiadau o fewn yr adnodd yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhai a oedd fwyaf priodol ar eu cyfer. Mynegodd ymatebwyr eraill bryder nad yw'r adnodd ar gael i'w weld yn gyffredinol eto.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 1:

> "It is pleasing to see that progress of all learners along with the four core purposes and well-being will be an important feature in school improvement planning and evaluation. It seems sensible that the published summary of the school development plan contains information on the support that will be provided by the Local Authority and the Regional Consortium."

> "It would have been beneficial to see the NEIR as part of this process but the principle that self-evaluation is robust and draws on a wide range of evidence is sound. It is also pleasing to see that the process of self-evaluation is being

valued in the consultation over the documentation which has been the case previously.”

“Self-evaluation does need to be robust. However there needs to be better guidance on how to measure improvement and what to measure against. With so many 'pointers' it is inevitable that schools will look to respond and provide evidence for every one, so workload will increase.”

“The School improvement Guidance…raises concerns about an imbalance in terms of time investment needed to meet the significant expectations outlined for self-evaluation coupled with the time needed to meet the accountability and transparency expectations. This will not leave schools much time to improvement plan and more importantly carry out planned improvement actions. There is a disproportionate focus upon evaluating and engaging in stipulated accountability and transparency arrangements.”

**Cwestiwn 2 - Ydych chi’n cytuno y dylai’r system gategoreiddio genedlaethol ddod i ben, ond y dylid ei disodli gan broses debyg, dan arweiniad consortia rhanbarthol, a fyddai’n golygu bod consortia yn cytuno gydag ysgolion ar y cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn gwella, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion?**

O'r saith deg tri o ymatebion i gwestiwn 2, roedd pum deg chwech ymatebydd (77%) yn cytuno y dylai'r system gategoreiddio genedlaethol ddod i ben, ond y dylid ei disodli gan broses debyg fel y nodir yn y canllawiau gwella ysgolion. Nid oedd tri ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un deg pedwar (19%) yn anghytuno â'r cynnig.

O'r ymatebion a oedd yn cytuno â'r cwestiwn yn gyffredinol, thema gyffredinol yn y sylwadau oedd y byddai angen newid diwylliannol mewn disgwyliadau a dealltwriaeth er mwyn i'r cynnig fod yn llwyddiannus. Soniodd ymatebwyr eraill am rôl y consortia ac awdurdodau lleol o ran rhoi cymorth i ysgolion.

Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r bwriad i ddod â'r system gategoreiddio genedlaethol i ben yn cwestiynu gwerth y system newydd sy’n cael ei chynnig yn y canllawiau drafft ar wella ysgolion. Er eu bod yn cytuno â chwestiwn 2, roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys sylwadau fel nad oedd y system newydd arfaethedig yn wahanol iawn i’r system gategoreiddio bresennol ac y gallai arwain at faterion tebyg. Cododd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn anghytuno â chwestiwn 2 bryderon tebyg.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o’r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 2:

> “We welcome the proposal to end categorisation as a formal national process with published outcomes. We have never been comfortable with the publication of school categorisations as it placed unnecessary added pressure in schools. Championing collaboration between schools and not competition is one of the most important features in this guidance. Removing categorisation will greatly assist with this process.

We also welcome that the guidance states that the fundamental role of the regional consortia is not primarily to challenge the school but to be a professional partner in the school's improvement, and that challenge should not be focus of the relationship. We recommend therefore that the term 'Challenge Adviser is removed from the guidance and replaced by 'Support Adviser'."

"The proposal to potentially review the school category more regularly would enable greater accuracy in charting the school's improvement journey. We would support a wider range of indicators being used in the new evaluation process to accurately capture the areas of good practice and those requiring development and support. In this way schools would be able to engage with the process positively and the public would have more confidence in the outcomes."

"Once you have an external body grading schools according to the support that they need, then you will have unintended consequences. Categorisation or a similar process labels schools according to how able they are to improve. The consortia then operates to 'verify' the school's self evaluation judgement. This removes the professional judgement from the school and places it with the body who is directly accountable for standards to Welsh Government."

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau gwerthuso a gwella, a'r system atebolrwydd, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion? A yw'r gwahaniaeth hwn wedi'i wneud yn glir?**

O'r saith deg un o ymatebion a gafwyd i gwestiwn 3, roedd chwedeg o ymatebwyr (84%) yn cytuno â'r cwestiwn, roedd wyth yn anghytuno ac nid oedd tri yn cytuno nac yn anghytuno.

Thema gyffredinol yn y sylwadau oedd yr angen am eglurhad pellach o rôl Estyn a'r cynnydd yn amlder arolygiadau ysgolion yn y system atebolrwydd arfaethedig. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai dibenion y gweithgareddau gwerthuso a gwella sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr yn cael eu cyflawni, yn hytrach na bod gweithgareddau'n cael eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd. Derbyniwyd sylwadau hefyd yn gofyn am eglurhad am rôl y consortia rhanbarthol a'r cynghorwyr herio yn y trefniadau newydd.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 3:

"In transitioning to a 'high trust' environment the evaluation and improvement resource which will support schools in undertaking robust, enquiry-based, self-evaluation is a significant improvement on the previously high stakes accountability model. The accountability system proposed as a safety net for when evaluation and improvement is not functioning effectively is sensible and proportionate, providing that all stakeholders maintain the commitment that it should not drive school improvement activity. Accountability should ensure that problems are identified and addressed… peer engagement should also be identified as a central pillar within evaluation and improvement planning cycles."

"Rydym o'r farn bod y gwahaniaethau yn y gweithgareddau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn cael eu diffinio'n glir yn y ddogfen. Fodd bynnag, mae'n holl

bwysig fod y ddogfen yn  tanlinellu ac yn atgyfnerthu'r egwyddor mai diben gweithgareddau gwerthuso a gwella yw sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'r disgyblion."

"Accountability is clearly described. However, this will require a significant cultural change, across all tiers but more importantly amongst the general public. How will this be achieved?"

"More detail is required… to show how it will work in practice, and, particularly the interrelation between Estyn, who will be increasing inspections in schools, and other elements of the accountability system. There is insufficient detail about inspections to judge whether these will over burden schools. There is a need to ensure that the implementation of these arrangements will not unduly overburden schools. They will need to be conducted with a positive and constructive approach with a view to enabling collaboration and the realisation of the new curriculum with confidence and creativity to meet the needs of the communities that the institutions serve."

**Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno y bydd y system atebolrwydd a nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'i egwyddorion?**

O'r saith deg o ymatebion i gwestiwn 4, roedd pedwar deg pump o ymatebwyr (63%) yn cytuno, roedd dau ddeg un (30%) yn anghytuno ac nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno. O'r ymatebwyr hynny a gytunodd y bydd y system atebolrwydd a nodir yn y canllawiau gwella ysgolion yn cyd-fynd â Chwricwlwm newydd Cymru a'i egwyddorion, gofynnodd sawl un am eglurhad ynghylch beth yn union y byddai ysgolion yn atebol amdano. Thema gyffredin arall oedd yr angen i ddarparu hyfforddiant ar bob lefel o'r system addysg, ac roedd eraill yn cwestiynu rôl barhaus canlyniadau arholiadau yn y system atebolrwydd arfaethedig.

Mae'r themâu sy'n rhedeg drwy ymatebion y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn cynnwys pryderon ynghylch y cynnig i gynyddu amlder arolygiadau ac effaith hyn ar lwyth gwaith ysgolion, a'r sicrwydd ynghylch y defnydd o ddata arholiadau.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

"We agree that the accountability system set out in the School improvement guidance is likely to support the new Curriculum for Wales and its principles, because its overall intention and likely effect are to establish a collaborative culture between organisations at all tiers of the Welsh education system. The proposals are also likely to encourage greater innovation and flexibility in teaching and learning which are at the heart of the new Curriculum for Wales. In particular, the proposal to remove aspects of the current accountability system that have focused too much on measuring particular outcomes, is helpful".

"A clear understanding of the detail of what a school is being held accountable for is needed … This also cannot be driven by changing agendas it needs to be led by the 4 core purposes of our curriculum. Any deviation from this will impact on the paradigm of the curriculum".

"Need clear and consistent national training, and ongoing discussions, with the school improvement officers who will be agreeing the levels of support, why and what. What about a school will be considered to determine its level of support"?

"It is important local authorities and consortia recognise their responsibilities to work in partnership with school governing bodies and educational practitioners to create a realistic school Improvement system. This will reassure and give confidence to governing bodies the system created will enable them to monitor and report on their individual school improvement aims to local authorities and ultimately be recognised for the varied successes they achieve. The system needs to be very transparent as to how suitable support is available and obtained, to assist those schools' leaders who need to access it."

**Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a bennir i'r gwahanol sefydliadau yn y system addysg fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion?**

O'r saith deg o ymatebion i gwestiwn 5, roedd pedwar deg pedwar ymatebydd (63%) yn cytuno â'r cwestiwn, roedd un ar hugain yn anghytuno ac nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno. O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig a neilltuwyd i wahanol gyrff, roedd rhai eisiau sicrwydd ynghylch lefel yr hyfforddiant i bawb dan sylw, canlyniadau posibl cynyddu amlder arolygiadau Estyn a rôl y consortia. Roedd y themâu a godwyd mewn sylwadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn cynnwys pwysigrwydd cysondeb o ran dull gweithredu ar draws y rhanbarthau.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd :.

"It is paramount that Governing Body training events cover the new assessment arrangements and the new emphasis on measuring learner progress asap. The reduction of narrow measures such as pure data needs to be embedded. These sessions should not be optional for governors to attend but delivered to the whole Governing Body either as cluster events or to individual schools".

"It is … important local authorities and regional consortia recognise the Welsh Government key expectation as to their 'supportive' roles in the new system".

"I do feel there is still too much difference between the regional support offer and I don't understand why every region isn't experiencing the same offer of support using the same documentation".

"[I] do not feel that more regular Estyn visits will improve standards - it will merely increase stress and worry for staff which in turn effects performance."

**Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn am yr effaith y bydd y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, fel y nodir yn y Canllawiau gwella ysgolion, yn ei chael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y**

**rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig[1].**

Cafwyd saith deg saith o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau gwella ysgolion naill ai'n cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod llawer o faterion cysylltiedig na allai ysgolion fynd i'r afael â hwy ar eu pennau eu hunain.

Mae detholiad o safbwyntiau a fynegir i'w gweld isod;

> "I foresee emphasis for improving happening on a wider scale now there seems to be less emphasis on competition and an overall judgement. This can only be a good thing for all groups of learners"

> "As each school is very different in its diversity then it is the school (with the knowledge of the community that it is situated in) that will be best placed to put actions in to place that will drive the practises that will be needed to ensure that children from all backgrounds are accounted for and provisions made".

> "The emphasis put on learner progression supported by assessment arrangements that enable each individual learner to make progress at an appropriate pace and take into account their diverse needs is very welcoming. The guidance is very much about the needs of the child and how practitioners will be supported to engage in professional learning to ensure that they are able to signpost the improvement journey for all pupils…The guidance supports bespoke sustainable school improvement and learning leadership which in theory should then allow individual schools to make informed choices and decisions around equity and excellence".

> "These are systemic issues that schools cannot deal with alone and cannot be held accountable for, the responsibility for each of these areas sits with Welsh Government and in a transparent, evaluative, self-improving system, such honesty and clarity within guidance would go some way to bringing confidence that schools will not be held responsible for issues that lie outside their ability to address."

**Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Canllawiau gwella ysgolion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:**

**i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

[1] Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu i sicrhau bod eu hysgol yn bodloni gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r Ddeddf yn diogelu disgyblion rhag gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail 'nodweddion gwarchodedig'. Y nodweddion gwarchodedig hyn yw anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Cafwyd chwe deg o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, dywedodd ymatebwyr y byddai'r canllawiau gwella ysgolion yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral yn y maes hwn. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod diffyg cyfeiriad uniongyrchol at y Gymraeg yn y canllawiau, neu at hyrwyddo neu gryfhau'r iaith. Mae detholiad o'r safbwyntiau a fynegir i'w gweld isod;

> "I believe it can have a positive impact with support for schools being more readily available, the sharing of good practice encouraged and a self-improving system promoted. This can only be positive for the opportunities to improve the use of Welsh in our schools".
>
> "The principles are implied in the framework but there is little direct reference to promoting Welsh language development. We believe that this should be further strengthened within the document".
>
> "Dylid cynnwys datblygiad a chyrhaeddiad ysgolion yn y defnydd o'r Gymraeg, sef ei safle ar y continwwm ieithyddol, fel un o'r meini prawf llwyddiant yn y dull categoreiddio newydd. Byddai hyn yn cefnogi agenda Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn effeithiol a chydlynus ac yn dosrannu cyfrifoldebau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau'n effeithiol a grymus".

**Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y cynigion yn y canllawiau:**

**i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

ii) **fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**.

Cafwyd pedwar deg saith o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae detholiad o safbwyntiau i'w gweld isod:

> "I believe it can have a positive impact with support for schools being more readily available, the sharing of good practice encouraged and a self-improving system promoted. This can only be positive for the opportunities to improve the use of Welsh in our schools".
>
> "The guidance could possibly state that schools will need to make it explicit in their SIP how they are developing Welsh language skills amongst staff and pupils and how they are supporting the local authority WESP. Could there also be an emphasis on how the regional consortia promote the use of Welsh amongst the workforce?"
>
> "It is about closely aligning the Curriculum for Wales's developments to individual Local Authority WESPs".

**Cwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

Rhoddodd pedwar deg naw o ymatebwyr sylwadau pellach. Crynhoir rhai enghreifftiau isod:

"The changes as a whole have the potential to be powerful school improvement tools. Ensuring that the processes function as expected and that each partner adheres to their remit will be a challenge and who will oversee this?"

"Throughout the document, and particularly in relation to school to school support (p.21) where "internal resource allocation" is referenced, we believe that 'behaviour' should be replaced with 'social, emotional and mental health'. Greater emphasis should be made on well-being. In addition to recognising the difficulties pupils will be facing post pandemic, this will also align with the elements of Estyn inspections referenced on page 28".

"A single overarching document illustrating how each of the above (and more) are aligned would be hugely welcome to bring coherence to a system under seismic change. Whilst [we agree] agree that schools should collect the information they deem relevant, how can they subsequently make meaningful comparisons to other schools? Some degree of comparator information is essential. Is there a need for some core elements to be agreed between partner / collaboration schools prior to the process?"

## 4. Ymatebwyr

4.1 Derbyniodd yr ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn ar y canllawiau drafft ar wella ysgolion wyth deg dau o ymatebion i gyd. Nid oedd yn rhaid i ymatebwyr ddarparu eu manylion a dewisodd deuddeg ymatebydd i aros yn ddienw. Gofynnodd tri deg pump o ymatebwyr i'w hymateb fod yn gyfrinachol.

4.2 Mae'r ymatebion a gafwyd yn cynnwys y rhai gan:

- Y Consortia Rhanbarthol
- Cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol
- Ysgolion, llywodraethwyr, cymdeithasau llywodraethwyr ac athrawon unigol
- Undebau athrawon
- Cyrff cenedlaethol, gan gynnwys Estyn, y Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Addysg Gatholig a Gyrfa Cymru
- Unigolion

## 5. Ymateb LLywodraeth Cymru

5.1 Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.2 Bydd y sylwadau a'r materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu a'u hystyried yn ofalus wrth baratoi'r canllawiau anstatudol ar wella ysgolion i'w cyhoeddi ym mis Medi 2021.

5.3 Cyn cyhoeddi'r canllawiau, rydym yn mynd i'r afael â dau fater isod a godwyd sawl gwaith mewn ymatebion.

### *5.4 System gategoreiddio genedlaethol*

Roedd cwestiwn ymgynghori 2 yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno y dylai'r system gategoreiddio genedlaethol ddod i ben, ond y dylid ei disodli gan broses debyg, dan arweiniad consortia rhanbarthol, a fyddai'n golygu bod consortia yn cytuno gydag ysgolion ar y cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn gwella, fel y nodir yn y canllawiau.

Fel y nodwyd uchod, er bod 77% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yng nghwestiwn 2, roedd llawer yn ychwanegu eu pryderon am y cynnig yn ei le. Roedd y pryderon hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr adborth a gafwyd gan yr ymatebwyr hynny a oedd naill ai'n anghytuno â'r cynnig neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adborth hwn, a bydd yn rhoi sylw iddo wrth gymeradwyo'n derfynol y canllawiau gwella ysgolion i'w cyhoeddi. Yn y cyfamser, ni fydd y broses o gategoreiddio ysgolion yn digwydd ym mlwyddyn academaidd 2021/22. Bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i helpu i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella. Ni aseinir categori i ysgolion fel rhan o'r broses gefnogi hon

### 5.5 Adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol

Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryderon am ddiben yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol. Y materion a godwyd amlaf oedd y potensial ar gyfer camddealltwriaeth ynghylch defnydd a phwrpas yr adnodd, a'r risgiau cysylltiedig o fwy o fiwrocratiaeth a chynyddu llwyth gwaith. Nodwyd y pryderon hyn, a bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd canllawiau pellach ar gyfer iteriad nesaf yr adnodd ar y we. yn cael eu cyhoeddi ar Hwb ym mis Medi 2021. Bydd hyn yn helpu ymarferwyr i fabwysiadu'r canllawiau gwella ysgolion.

Nod Llywodraeth Cymru yw lansio'r adnodd peilot ym mis Tachwedd 2021. Bydd ymarfer adborth yn cyd-fynd â'r lansiad;, ac anogir pawb sydd â diddordeb i gymryd rhan.

## 6. Y Camau Nesaf

6.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau gwella ysgolion anstatudol ym mis Medi, gan adeiladu ar yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad hwn. Bydd hyn yn rhoi amser i bawb o fewn y system addysg brofi'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd a pharhau i addasu a newid eu harfer i gefnogi'r broses o drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd.